YDYCH CHI'N FODLON AR DDARPARIAETHAU JEHOFAH?

Nodyn i'r siaradwr:
Tra mae Gwledydd Cred yn dioddef newyn ysbrydol, mae gan Dystion Jehofah ddigonedd ysbrydol. 'Ydych chi'n wir werthfawrogi'r darpariaethau lawer mae Jehofah yn eu sicrhau i chi? Os ydych chi, mi ddylech chi fod yn berson hapus a bodlon iawn

MAE NEWYN YSBRYDOL GWLEDYDD CRED YN CYFERBYNU Â CHYFLWR POBL JEHOFAH (7 mun.)

Fel y rhagfynegwyd, mae hi'n ddrwg ar Wledydd Cred (Amos 8:11)

Mae eu haelodau a'u clerigwyr eu hun yn cyfaddef fod yr eglwysi'n marw (*w*90 7/15 30; *g*89 11/22 19-22; *g*88 2/8 12-15; *re* 229)

Pam mae Gwledydd Cred yn dioddef newyn ysbrydol er fod y Beibl ganddynt?

Maent wedi gwrthod Jehofah, gwyro oddi wrth ei Air (Jer 2:13; *w*83 11/15 22)

Yn lle'r Gair bywiol, cynnig athrawiaethau paganaidd, athroniaeth, a syniadau modernaidd mae Gwledydd Cred (Col 2:8; *g*88 3/8 27)

Cynnig traddodiad mae'r eglwysi, fel y Phariseaid, yn lle Gair Duw (Mth 15:3-9; *w*88 12/1 4-7)

Gofelir yn gariadus am bobl Dduw â digonedd o fwyd ysbrydol (Eseia 65:13, 14)

Mae eu profiad fel un Dafydd, nad oedd eisiau arno (Salm 23:1; *w*88 7/1 23)

Mae'r rhai hynny sy'n dod i le addoli Jehofah yn cydnabod yn agored y byddant yn cael eu dysgu'n briodol; dymunant rodio yn ei ffyrdd (Eseia 2:2, 3)

Maen nhw'n mwynhau gwledd ysbrydol barhaol (Diar 15:15)

Gallant fwydo ar 'eiriau'r ffydd, a'r athrawiaeth dda,' sy'n eu bodloni nhw (1Tim 4:6)

MAE RHESYMAU CADARN GENNYM DROS FOD YN FODLON WRTH INNI WERTHUSO DARPARIAETHAU JEHOFAH (20 mun.)

Gair Duw yw sail y bwyd ysbrydol a arlwyir i deulu'r ffydd (*w*87 10/1 10-14)

Mae'n ein galluogi ni i 'nabod y gwirionedd sy'n arwain i fywyd tragwyddol (Salm 119:160; In 14:6)

Mae'n ein goleuo ni'n gynyddol ynglŷn ag ewyllys a bwriad Duw (Salm 97:11; Diar 4:18)

Gyda goleuni o'r Beibl, 'rydym yn deall arwyddocâd yr amserau, cawn weledigaeth o ddigwyddiadau'r dyfodol (2Pedr 1:16-19; Dat 1:1, 3; *re* 15-17)

Mae'n arweiniad ac yn llesol mewn ffyrdd eraill (Salm 119:105; 2Tim 3:16, 17; *w*84 6/15 15)

Mae'n rymus ei ddylanwad ar ein bywyd, yn adnewyddu meddyliau; yn helpu i wisgo amdanom y natur ddynol newydd (Rhuf 12:1, 2; Eff 4:23, 24)

Tra bod angen hanfodion arnom, 'fedrwn ni ddim cyrraedd ein llawn dwf os arhoswn gyda phethau elfennol (Heb 5:14; 6:1-3; *w*85 5/1 8-12)

Mae angen bwyd cryf arnom er mwyn gwahaniaethu rhwng da a drwg

Mae gwneud cynnydd ysbrydol yn dod â bodlonrwydd (1Tim 4:15)

Mae darpariaeth ysbryd Duw yn dod â bodlonrwydd i Gristionogion

Wrth fyw yn unol â'r ysbryd, gallwn gynhyrchu'r ffrwyth cywir (Gal 5:22-25)

Cawn ein hysgogi i gyflawni'r gwaith pregethu a gwneud disgyblion, yn ogystal â chyhoeddi barnedigaethau Duw er gwaetha' gwrthwynebiad (Sech 4:6)

Mae cyfarfodydd y gynulleidfa a chynulliadau mwy yn darparu rhaglen o ddysgu ac anogaeth parhaol, ynghyd â chymdeithasu iachus sy'n adnewyddu (Salm 26:8; 122:1; 1Cor 14:26, 31; Heb 10:24, 25)

Mae gennym amrywiaeth o gyhoeddiadau i'w defnyddio yn y cyfarfodydd, er mwyn astudio'n bersonol ac fel teulu, ac i'w dosbarthu yn y maes (*km* 4/91 1; *w*87 10/1 13-14)

Mae henuriaid lleol ar gael i ddysgu, adfer, a helpu brodyr (Eff 4:11, 12; 1Tim 5:17)

Mae goruchwylwyr teithiol yn ymweld o dro i dro i ysgogi ymdrechion ac adeiladu ysbrydolrwydd (Act 14:22; Rhuf 1:11, 12; *w*79 2/15 23-6)

Darperir ysgolion gwahanol i hyfforddi arloeswyr, henuriaid, cenhadon, ac eraill

Mae'r holl ddarpariaethau hyn yn dangos mor dda y gofala Jehofah am ei bobl

'Oes 'na grwp crefyddol yng Ngwledydd Cred sy'n rhoi'r fath sylw i'w aelodau?

Mae myfyrio ar ddaioni a chariad Jehofah yn gwneud inni deimlo'n wir ddiolchgar (Salm 40:5)

ARHOSWCH YN FODLON DRWY WERTHFAWROGI DARPARIAETHAU JEHOFAH A THRWY HELPU ERAILL (15 mun.)

Annoeth yw esgeuluso unrhyw ddarpariaeth neu ei chymryd yn ganiatáol (*w*88 2/15 17 ¶9-11; *w*88 7/1 24 ¶7; *w*74 250)

Os ydym yn esgeulus, fe fyddwn yn methu â wynebu treialon ac anawsterau'r presennol na'r rhai sydd o'n blaen

Peth peryglus fyddai cymryd agwedd fel rhai yn Israel gynt (Mal 1:6-8, 12, 13; *w*87 12/1 17-20; *w*89 7/1 30)

Bu iddynt fethu â gwerthfawrogi trefniant Jehofah ynglŷn â deddfau aberthu, a thrwy hynny amharchu bwrdd Jehofah

Os edrychwn i gyfeiriad Jehofah am fwyd ysbrydol, gallwn ddisgwyl ei dderbyn, oherwydd mae'n gwybod beth yw ein hanghenion (*w*79 6/15 7-8)

Dylid derbyn y darpariaethau a arlwyir yn ddiolchgar, yn union fel pan arlwyir bwyd llythrennol (Lc 11:9-13; 1Tim 4:3, 4)

Mae'r "gwas ffyddlon a chall" yn cael ei ddefnyddio i ddarparu 'bwyd yn ei bryd' (Mth 24:45-47)

Mae cydnabod hyn a chyfranogi'n gyson o fwrdd Jehofah yn dangos ein bod yn fodlon ar ei ddarpariaethau (*w*81 11/15 28-30)

Rhaid inni hefyd estyn gwahoddiad i eraill sy'n newynu ac yn sychedu (*w*90 12/15 10-15)

I sicrhau gwir fodlonrwydd mae'n rhaid iddyn' nhw ddod at y ffynhonnell iawn i gael bwyd a diod ysbrydol (Eseia 55:1, 2)

Mae Tystion Jehofah yn galw ar bobl yr holl genhedloedd i ymuno â nhw wrth gyfranogi o fwrdd Jehofah

'Fedr unigolion ddim mynd i eglwysi Gwledydd Cred a cheisio cyfranogi o fwrdd Jehofah yr un pryd (1Cor 10:21)

Mae hyn yn golygu fod yn rhaid inni wneud rhagor na dim ond gwahodd myfyrwyr y Beibl ac eraill i'r cyfarfodydd

'Dyw'r ffaith fod digonedd o fwyd ysbrydol ymhlith pobl Jehofah ddim yn golygu o angenrheidrwydd y byddwn yn cael ein cynnal (Diar 3:18; *it*-2 250 ¶3)

Mae angen gwneud camau arbennig a chyfarfod â gofynion Ysgrythurol

Er mwyn ymryddhau oddi wrth y newyn ysbrydol sydd â'i afael ar Wledydd Cred, mae'n rhaid i unigolion wneud yr hyn a ragarwyddwyd yn symbolaidd pan drawodd newyn yr Aifft yn amser Joseff (*w*87 5/1 19-20)

Gwerthodd pobl eu hunain a'u tir i Joseff am fwyd

Yn gyfnewid am had i'w hau a defnyddio tir, dychwelodd yr Eifftiaid un rhan o bump o'u cynhaeaf

Yn yr un modd heddiw, rhaid i'r rhai sy'n ceisio'r gwirionedd ymgysegru i Jehofah a dilyn camre Iesu Grist (Mth 16:24; In 6:27)

Felly, mae cyfrifoldeb ar Gristionogion heddiw i helpu eraill sydd mewn angen ysbrydol (*w*70 27-30)

Yn wir, 'rydym yn freintiedig iawn o'n cymharu â'r rhai sydd yng Ngwledydd Cred, sy'n newynu a'u hysbryd wedi dryllio

Mae'r bodlonrwydd a dderbyniasom drwy gyfrwng darpariaethau Jehofah yn rhy werthfawr i'w golli

Os ydym yn fodlon ar ddarpariaethau ysbrydol Jehofah yn ogystal ag â phethau materol sylfaenol, yna fe fyddwn yn parhau yn ein perthynas gymeradwy â Duw (1Tim 6:6-8)

PARHEWCH I GAEL BUDD O DDARPARIAETHAU JEHOFAH 'NAWR AC YN Y DYFODOL (3 mun.)

Yng nghanol y newyn ysbrydol sy'n effeithio ar grefydd bydol, 'rydym yn mwynhau gwledd o bethau ysbrydol (Eseia 25:6; *w*88 1/15 14; *w*83 11/15 30)

Arhoswch gyda'r rhai sy'n cadw'u golwg ar Jehofah, sy'n bodloni anghenion ei weision (Salm 145:15-18; *w*90 9/15 18-19)

Wrth ystyried y cyfan mae Jehofah yn ei ddarparu, mae gennym bob rheswm dros fod yn fodlon

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)